# Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 2 - Y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mercher, 21 Medi 2011** |
| Amser: | **09:30 - 11:50** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_700000_21_09_2011&t=0&l=cy

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Dafydd Elis-Thomas (Cadeirydd)**<br>**Mick Antoniw**<br>**Rebecca Evans**<br>**Russell George**<br>**Vaughan Gething**<br>**Llyr Huws Gruffydd**<br>**Julie James**<br>**William Powell**<br>**David Rees**<br>**Antoinette Sandbach** |
| Tystion: | **John Griffiths, Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy**<br>**Carwyn Jones, Prif Weinidog**<br>**Rhodri Asby, Llywodraeth Cymru**<br>**Matthew Quinn, Llywodraeth Cymru**<br>**Clive Bates, Llywodraeth Cymru** |
| Staff y Pwyllgor: | **Virginia Hawkins (Clerc)**<br>**Catherine Hunt (Dirprwy Glerc)** |

### 1. Ymddiheuriadau a dirprwyon
1.1 Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

### 2. Ymchwiliad i Bolisi Ynni a Chynllunio yng Nghymru - Tystiolaeth gan y Prif Weinidog (09.30 - 10.15)
2.1 Bu'r Prif Weinidog a swyddogion yn ateb cwestiynau ynghylch polisi ynni a chynllunio yng Nghymru gan Aelodau'r Pwyllgor.

## 3. Ymchwiliad i Bolisi Ynni a Chynllunio yng Nghymru - Tystiolaeth gan Weinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy (10.15 - 11.00)

3.1 Bu Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy yn ateb cwestiynau ynghylch polisi ynni a chynllunio yng Nghymru gan Aelodau'r Pwyllgor.

3.2 Cytunodd y Gweinidog i ddarparu gwybodaeth am nifer y ceisiadau a gafwyd ar gyfer prosiectau uwchben ac islaw 50 MW ers datganoli, a'r mathau o brosiectau roedd y ceisiadau hyn yn cyfeirio atynt.

## 4. Sesiwn graffu gyffredinol gyda Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy (11.00 - 11.30)

4.1 Bu Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy yn ateb cwestiynau gan Aelodau'r Pwyllgor ynghylch blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer yr amgylchedd a datblygu cynaliadwy.

## 5. Sefydlu Grwp Gorchwyl a Gorffen ar y Polisi Amaethyddol Cyffredin (11.30 - 11.45)

5.1 Cytunodd y Pwyllgor ar y cynnig a ganlyn i sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar y Polisi Amaethyddol Cyffredin o dan Reol Sefydlog 17.17:

*Bod y pwyllgor yn penderfynu sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar y Polisi Amaethyddol Cyffredin;*

*mai cylch gwaith y Grŵp Gorchwyl a Gorffen hwnnw yw ystyried effaith cynigion y Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer diwygio'r Polisi Amaethyddol Cyffredin yng Nghymru, y bydd yn gwneud argymhellion i Lywodraeth Cymru ar y blaenoriaethau negodi ac yn dylanwadu ar y drafodaeth ehangach ar y polisi, ac y bydd y pwyllgor yn cael ei ddiddymu heb fod yn hwyrach na diwedd 2012 neu unwaith y bydd y negodiadau ar y cynigion deddfu ar gyfer y polisi wedi'u cwblhau, pa un bynnag a ddaw yn gyntaf.*

*bod aelodaeth y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin yn cynnwys Dafydd Elis-Thomas AC, Rebecca Evans AC, Vaughan Gething AC, Llyr Huws Gruffydd AC, William Powell AC ac Antoinette Sandbach AC, gyda Vaughan Gething AC wedi'i ethol yn Gadeirydd.*

## 6. Sefydlu Grwp Gorchwyl a Gorffen ar y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin (11.45 - 12.00)

6.1 Cytunodd y Pwyllgor ar y cynnig a ganlyn i sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin o dan Reol Sefydlog 17.17:

*Bod y pwyllgor yn penderfynu sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin;*

*mai cylch gwaith y Grŵp Gorchwyl a Gorffen hwnnw yw ystyried effaith cynigion y*

*Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer diwygio'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin yng Nghymru, y bydd yn gwneud argymhellion i Lywodraeth Cymru ar y blaenoriaethau negodi ac yn dylanwadu ar y drafodaeth ehangach ar y polisi, ac y bydd y pwyllgor yn cael ei ddiddymu heb fod yn hwyrach na diwedd 2012 neu unwaith y bydd y negodiadau ar y cynigion deddfu ar gyfer y polisi wedi'u cwblhau, pa un bynnag a ddaw gyntaf.*

*bod aelodaeth y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin yn cynnwys Dafydd Elis-Thomas AC, Llyr Huws Gruffydd AC, Julie James AC, William Powell AC, David Rees AC ac Antoinette Sandbach AC, gyda Julie James AC wedi'i hethol yn Gadeirydd.*

## 7. Papur i'w nodi: Blaenraglen waith y Pwyllgor - Hydref 2011

### Trawsgrifiad

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.